Teitl y Swydd: **Rheolwr Datblygu**
Yn adrodd wrth: **Y Cyfarwyddwr Gweithredol**

---

Nofit State yw'r mwyaf o gwmnïau syrcas gyfoes teithiol y Deyrnas Unedig. Bob blwyddyn, mae'r cwmni'n dod i gysylltiad â rhwng 120,000 a 150,000 o bobl o bob oedran a chefndir ledled Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd.

Mae Nofit State yn sefydliad creadigol, deinamig sy'n ffynnu wrth wynebu her ac sydd bob amser yn ceisio dysgu a gwella ym mhob agwedd ar bopeth a wnawn. Cawn ein hysbrydoli gan y pethau rhyfeddol y gall pobl gyffredin eu cyflawni ac rydym yn dathlu'r cryfder cymunedol a ddaw o fywyd teithiol traddodiadol y syrcas.

Ein nod yw creu gwaith rhyfeddol sy'n newid bywydau. Rydym yn dathlu gallu pobl gyffredin i wneud pethau rhyfeddol.

Yng Nghymru y mae gwreiddiau NoFit State Circus ac mae'n darparu:

- Cynyrchiadau proffesiynol mawr a chanolig eu maint sy'n teithio'r Deyrnas Unedig a thramor
- Rhaglen gymunedol a rhaglen ddysgu helaeth sy'n cynnig cyfle i bobl gymryd rhan
- Rhaglen datblygiad proffesiynol i helpu i groesi'r bont rhwng cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a hyfforddiant proffesiynol a rhwng hyfforddiant proffesiynol a swydd

Mae NoFit State Circus yn chwilio am Reolwr Datblygu brwd, uchelgeisiol a threfnus sydd ag angerdd gwirioneddol dros y celfyddydau a'n gwaith ni.

Rhaid i chi fod yn un ardderchog am adeiladu a meithrin perthnasoedd, yn gallu meddwl yn y tymor hir ac yn strategol, ac addasu i anghenion amrywiol y byd cyfnewidiol o'n cwmpas.

**Pwrpas y Swydd**

Hybu datblygiad strategol y cwmni trwy gynllunio a chyflawni strategaeth gyffredinol y cwmni ar gyfer codi arian a datblygu er mwyn cyrraedd targedau ariannol a bennwyd. A chithau'n uwch-reolwr, byddwch yn cydweithio â'r Tîm Gweithredol i ddiffinio ac yna gyrraedd targedau ariannol y cytunwyd arnynt.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Datblygu a gweithredu strategaeth ddatblygu'r cwmni sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill):
  - Arian Cyhoeddus (yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru ac Arts Council England)
  - Ymddiriedolaethau a Sefydliadau (Foundations)
  - Noddwyr a chefnogwyr corfforaethol
  - Rhoddion preifat (rhoddwyr unigol a chyfranwyr mawr)
- Ymchwilio ar gyfer ceisiadau a chyflwyniadau ymgeisio, penderfynu arnynt a'u drafftio. Eu cyflwyno i arianwyr/cefnogwyr priodol, gan feithrin perthnasoedd a sicrhau cefnogaeth i gyrraedd targedau diffiniedig
- Rheoli a meithrin y perthnasoedd parhaus â chefnogwyr/arianwyr cyfredol a blaenorol
- Cynllunio, rheoli a darparu rhaglen o ddigwyddiadau datblygu
- Cynllunio a darparu prosesau adrodd sy'n addas at y diben ac yn bodloni gofynion arianwyr a chefnogwyr
- Cefnogi'r Swyddog Cyllid a Gweinyddwr y Cwmni wrth baratoi adroddiadau ariannol am gronfeydd dynodedig
- Rheoli cyllidebau datblygu

**Safle yn y Cwmni**

Bydd y Rheolwr Datblygu yn:

- adrodd wrth ei reolwr llinell, sef y Cyfarwyddydd Gweithredol
- paratoi'r newyddion diweddaraf mewn ysgrifen ar gyfer y Bwrdd Ymddiriedolwyr ac adrodd ar lafar iddynt yn ôl yr angen
- gweithio mewn partneriaeth â Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata'r cwmni i gadw mewn cysylltiad â rhoddwyr, darpar gyfranwyr a rhanddeiliaid allweddol, gan symud o berthnasoedd busnes yn unig i rai sy'n seiliedig ar gysylltiad emosiynol ac ymrwymiad
- cydweithlo â Thîm Gweithredol y cwmni i feithrin cefnogwyr a phartneriaid cyflenwi strategol newydd er mwyn helpu gwaith y cwmni yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i ddatblygu a thyfu
- cydweithlo â Rheolwr Prosiectau Cymunedol i feithrin cyfleoedd newydd i gefnogi'r cwmni
- rheoli unrhyw aelod o'r tîm datblygu yn y dyfodol.

nofitstate circus

## Manyleb y Person

Mae'n rhaid eich bod yn gallu cydweithio ag eraill a meddwl mewn ffordd ochrol sut y gall arianwyr a chefnogwyr gefnogi pob elfen o waith yr elusen. Mae mwy o gystadleuaeth nag erioed am gefnogaeth ac felly mae'n rhaid eich bod chi'n gallu gweithio mewn ffordd greadigol, hyblyg a gwydn. Mae gwead a ffocws ein cymdeithas yn newid ac mae ein gwaith yn datblygu mewn ymateb i hynny. Felly, rhaid i'n hymdrechion codi arian ddysgu a thyfu ar yr un pryd.

| **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|
| Gwir ddiddordeb mewn syrcas gyfoes / theatr / y celfyddydau perfformio / celfyddydau awyr agored ac angerdd gwirioneddol amdanynt | |
| Deall, a dangos, sut y gellir defnyddio data i hybu newid a chyfrannu at benderfyniadau | |
| Gallu cyfathrebu'n hyderus | Gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn mwy nag un iaith (Cymraeg a/neu Ffrangeg yn benodol, yn ogystal â Saesneg) |
| Sgiliau ysgrifennu cryf a hyblyg | |
| Trefnus iawn ac yn gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hunan. Wedi profi'ch bod yn gallu gweithio'n gyflym ar nifer o wahanol brosiectau ar yr un pryd | Gallu rhoi gwybodaeth gywir a manwl ar fyr rybudd |
| Sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfrifiadurol rhagorol | |
| Gallu prawfddarllen yn gywir | |
| Wedi profi llwyddiant yn codi arian o ffynonellau amrywiol iawn, yn cynnwys cyrff statudol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau preifat, a chyflwyno adroddiadau iddynt | |
| Wedi profi llwyddiant yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd gyda chyfranwyr, noddwyr neu arianwyr | Gallu i adeiladu ac arwain tîm cryf lle mae pob aelod yn deall ac yn gwerthfawrogi eu heffaith a'u swyddogaeth |
| Gallu defnyddio cyfrifiadur a gallu dysgu a defnyddio gwahanol becynnau meddalwedd yn cynnwys systemau cronfeydd data | Wedi profi eich bod yn gallu defnyddio meddalwedd cronfeydd data a CRM ar gyfer gwaith ymchwil, data, cyllid ac olrhain cysylltiadau |

| | |
|---|---|
| Parod i fod ar gael i weithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau yn achlysurol pan fydd angen | |

## Trosolwg o'r Swydd

Mae hon yn swydd lawn-amser, barhaol, ar ôl cwblhau cyfnod prawf o dri mis yn llwyddiannus. Mae hon yn swydd PAYE a bydd y sawl a benodir yn gweithio o brif swyddfa'r cwmni yng Nghaerdydd.

Gallwn gynnig patrwm gweithio hybrid sy'n cyfuno gweithio gartref â chyfnodau o weithio yn y swyddfa er mwyn sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Mae NoFit State yn gyflogwr Cyflog Byw ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth a'r gofynion statudol fel safon ofynnol i adeiladu arni.

## Y Broses Recriwtio

### Dyddiadau allweddol

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: | 10am, dydd Mercher 14 Ionawr 2026 |
| Cyfweliadau: | Yr wythnos yn dechrau ar 19 Ionawr |
| Syniad o'r dyddiad dechrau: | Cyn gynted â phosibl |
| Cyflog cychwynnol: | £30,000 - £37,500 y flwyddyn, yn dibynnu ar brofiad |

Mae Nofit State yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned. Ar hyn o bryd, nid oes gan bobl anabl, B/byddar a/neu niwroamrywiol, pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol na phobl o dan 30 gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm ac felly rydym yn annog pobl o'r grwpiau hyn, yn neilltuol, i ymgeisio.

Rhowch wybod i ni os bydd angen i ni wneud rhyw addasiadau yn ystod y broses ymgeisio neu recrwitio a byddwn yn barod iawn i'ch helpu. Gallwch gysylltu â Lizzy ar lizzy@nofitstate.org neu ffonio 02921 321 026.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl, ebost alison@nofitstate.org.

### Sut i ymgeisio

Os hoffech ymgeisio am y swydd hon, gofynnir i chi lenwi'r Ffurflen Gais a'r Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal a'u hanfon gyda llythyr eglurhaol a chopi o'ch CV at:

jobs@nofitstate.org neu

Development Manager Application
NoFit State Circus, Four Elms Road
Caerdydd CF24 1LE

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig.



NoFit State Community Circus: Registered Charity Number 1102850 / Registered Company Number 3180348
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number 06072806